


2. O enwau gwyn fy mro
   Ar dŷ a nant,
   Fe ganant yn fy ngho,
   Nes dod yn eiddo'r plant;
   Ni chaiff yr estron hy na thwyll na brad
   Fyth ddwyn oddi arnom ni ein hiaith na'n gwlad.

3. O hiraeth hen y tir
   Sydd dan fy nhraed,
   Ti gadwyd gan fy hil
   Trwy ddirfawr chwys a gwaed;
   Fe gadwaf hyn am byth i mi'n goffâd
   Mai'n heiddo annwyl ni yw'n hiaith a'n gwlad.



# Fy Iaith, Fy Ngwlad

## Anthem Merched y Wawr

Geiriau: D Jacob Davies
Cerddoriaeth: Elfed Owen (Pencerdd Silyn)

**Yn urddasol**




